TÂN GWYLLT

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Dwyieithrwydd / Datblygu'r Gymraeg
- Creu casgliad o eiriau sy'n gysylltiedig â thân gwyllt
- Trafod ystyr yr idiomau – 'gwrando'n astud', 'gweithio'n ddiwyd' ac 'yn wên o glust i glust'
- Creu llyfryn/stori yn cynnwys idiom
- Llunio poster yn hysbysebu arddangosfa tân gwyllt
- Llunio disgrifiad o'r cymeriadau neu o noson tân gwyllt
- Llunio rheolau diogelwch ar gyfer noson tân gwyllt
- Creu barddoniaeth syml am dân gwyllt
- Trafod lliwiau'r tân gwyllt a llunio cymariaethau – 'yn felyn fel yr haul', 'yn goch fel gwaed' a.y.y.b.
- Trafod synau tân gwyllt a llunio cymariaethau – 'yn swnllyd fel taran' a.y.y.b.
- Trafod arddodiaid – mae'r roced tu ôl/o flaen y goelcerth a.y.y.b.
- Ysgrifennu llythyr i'r Gwasanaeth Tân yn gofyn i swyddog ddod i siarad â'r dosbarth ynglŷn â diogelwch noson tân gwyllt

Datblygiad Mathemategol
- Cyfri 'yn ôl' cyn i'r roced saethu i'r awyr.
- Cyfri 'yn ôl' ac 'ymlaen' bob yn 2, 5, 10 a.y.y.b.
- Trafod siapiau
- Trafod llinellau – syth, igam-ogam, crwm
- Lluniau yn rhoi hanner/chwarter tro

Gwyddoniaeth
- Trafod golau a thrydan
- Trafod synau; sŵn yn pylu os ydym yn bell oddi wrtho. Pa ddeunydd sydd orau i atal sŵn – plant i wneud arbrofion syml
- Trafod golwg; beth sydd i'w weld ar noson tân gwyllt. Arteffactau ar hambwrdd – plant i sylwi arnynt, yna eu gorchuddio a'r plant i geisio rhestru'r arteffactau
- Trafod arogleuon; beth sydd i'w arogli ar noson tân gwyllt. Casgliad o arogleuon i'r plant geisio eu hadnabod. Trafod peryglon arogli rhai cemegau
- Trafod blasu; beth sydd i'w flasu ar noson tân gwyllt. Trafod blas sur, melys, hallt, chwerw. Plant i flasu amrywiol bethau
- Trafod teimlo; teimlo'r gwahanol ddeunyddiau e.e. ar y goelcerth, y gwnaed Guto Ffowc ohonynt. Trafod ystyr meddal/caled/garw/llyfn/pigog a.y.y.b.

Dyniaethau
- Trafod hanes Guto Ffowc
- Trafod lleoliad Llundain ar fap o Loegr

Datblygiad Corfforol
- Creu dawns syml i gyfleu symudiadau tân gwyllt a theimladau cynhyrfus y plant
- Trafod y cyfeiriad mae'r tân gwyllt yn teithio – ymlaen, i'r dde, yn ôl, i'r chwith a.y.y.b.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Trafod rheolau diogelwch ar noson tân gwyllt
- Trafod pwysigrwydd rheolau
- Trafod sefyllfaoedd eraill ble y ceir rheolau e.e. yr ystafell ddosbarth
- Teimladau cynhyrfus – ar ba adegau eraill y byddwn yn llawn cynnwrf e.e. pen-blwydd, Nadolig.

Datblygiad Creadigol

- Gwrando ar gerddoriaeth a chyfansoddi darn syml yn cyfleu synau'r tân gwyllt a theimladau cynhyrfus y plant
- Creu peintiadau/lluniau/collages o'r cymeriadau
- Gwneud modelau/pypedau syml yn defnyddio amrywiol gyfryngau

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Trafod ar ba 'wyliau' neu achlysuron eraill y defnyddir tân gwyllt i ddathlu
- Trafod y syniad o ddefnyddio golau i gyfleu hapusrwydd – cymharu hyn â gwyliau crefyddol eraill, e.e. Diwali

Technoleg Gwybodaeth

Anogir athrawon i hybu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth wrth ymchwilio a chofnodi gwybodaeth